3.1. Bydd Deiliad y Cyfrif:

- (a) yn sicrhau bod y Mandad Banc yn cynnwys telerau sy'n caniatáu gweithredu'r Cyfrif Banc yn unol â thelerau'r Weithred hon;
- (b) yn llofnodi'r Mandad Banc cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl gweithredu'r Weithred hon ac, mewn unrhyw achos, o fewn 21 diwrnod i ddyddiad y Weithred hon;
- (c) yn gweithredu'r Cyfrif Banc yn unol â'r Mandad Banc, y Weithred hon a'r Contract bob amser. Os oes unrhyw wrthdaro rhwng y Mandad Banc, y Weithred hon a/neu'r Contract, bydd y dogfennau'n cael blaenoriaeth yn y drefn ganlynol:
 - (i) Y Weithred hon;
 - (ii) Y Mandad Banc; a
 - (iii) Y Contract.
- (d) yn cadw llyfrau cyfrifon a chofnodion cywir, cyflawn a chyfredol o'r holl drafodion sy'n ymwneud â'r Cyfrif Banc, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i fanylion yr holl daliadau o'r Cyfrif Banc a awdurdodir gan Ddeiliad y Cyfrif ac unrhyw ffioedd banc sy'n daladwy;
- (e) yn gyfrifol am weithredoedd a/neu hepgoriadau eu gweithwyr eu hunain a/neu gynrychiolwyr eraill fel pe baent ei weithredoedd a/neu ei hepgoriadau ei hun o dan y cymal 3 hwn;
- (f) ni fydd yn achosi i'r Cyfrif Banc fynd i'r coch;

²³ Defnyddiwrch y geiriau yn y cromfachau sgwâr hyn os yw'r Contract yn gontract JCT.

²⁴ Defnyddiwrch y geiriau yn y cromfachau sgwâr hyn os yw'r Contract yn gontract NEC.

- (g) os oes ganddo'r gallu i awdurdodi trafodion mewn perthynas â'r Cyfrif Banc drwy gyfleuster electronig a weithredir gan y Banc, bydd yn sicrhau mai dim ond y gweithwyr a/neu'r cynrychiolwyr hynny sydd angen gwybod gwybodaeth o'r fath fydd yn gallu gweld ei fanylion mynediad ar gyfer y cyfleuster hwnnw a bod gweithwyr a/neu gynrychiolwyr o'r fath yn ymwybodol o natur gyfrinachol y manylion mynediad, manylion y Cyfrif Banc a thrafodion y Cyfrif Banc;
 - (h) yn cadw'r holl arian yn y Cyfrif Banc ar ymddiriedolaeth er budd llawn y Contractwr, Is-gontractwyr Cyfrif Banc y Prosiect a'r [Cleient]/[Cyflogwr] yn unig yn unol â chymalau 2.3 i 2.9 (cynhwysol) uchod.
- 3.2 Ar bob [dyddiad asesu taliad]²⁵/[Dyddiad Prisio Interim]²⁶ o dan y Contract, bydd y Contractwr yn nodi unrhyw daliadau sy'n ddyledus o dan y Contract a'r Is-gontractau a bydd yn hysbysu'n brydlon [Rheolwr y Prosiect]²⁷/[Asiant y Cyflogwr]²⁸ (fel y'i diffinnir yn y Contract) a'r [Cleient]/[Cyflogwr] am hynny. Ar ôl i hysbysiad y Contractwr ddod i law;
- 3.2.1. Bydd y [Cleient]/[Cyflogwr] yn talu'r arian sy'n ddyledus o dan y Contract i'r Cyfrif Banc yn unol â gofynion y Contract; ac
 - 3.2.2. Ar ôl i'r arian a dalwyd i mewn i'r Cyfrif Banc, yn unol â chymal 3.2.1, glirio, bydd Deiliad y Cyfrif yn awdurdodi'r Banc yn brydlon i wneud taliadau i'r Contractwr ac Is-gontractwyr Cyfrif Banc y Prosiect yn unol â hysbysiad y Contractwr a roddwyd o dan y cymal 3.2 hwn.
- 3.3. Mae'r Contractwr yn hysbysu pob un o Is-gontractwyr Cyfrif Banc y Prosiect drwy gyhoeddi tystysgrif talu neu hysbysiad talu llai neu fel arall yn unol â'r Is-gontract perthnasol o'r symiau sydd i'w talu iddynt o'r Cyfrif Banc a'r dyddiad y gall Is-gontractwyr Cyfrif Banc y Prosiect ddisgwyl derbyn taliad o'r fath.
- 3.4. Bydd pob taliad i Is-gontractwyr Cyfrif Banc y Prosiect a'r Contractwr yn cael ei wneud drwy drosglwyddiad banc.
- 3.5. O leiaf 10 diwrnod busnes cyn y [dyddiad asesu taliad]²⁹ / [Dyddiad Prisio Interim]³⁰ cyntaf o dan yr Is-gontract perthnasol, mae pob Is-gontractwr Cyfrif Banc y Prosiect yn darparu manylion digonol i'r Contractwr o'r cyfrif banc y bydd yr arian a ddyrannwyd iddynt o'r Cyfrif Banc yn cael ei dalu i mewn iddo, er mwyn caniatáu i'r Banc wneud unrhyw daliadau a awdurdodwyd gan Ddeiliad y Cyfrif. Gall Is-gontractwyr Cyfrif Banc y Prosiect ddiweddarau eu manylion banc drwy hysbysiad ysgrifenedig i'r Contractwr, o bryd i'w gilydd.

²⁵ Defnyddiwyd y geiriau yn y cromfachau sgwâr hyn os yw'r Contract yn gontract NEC.

²⁶ Defnyddiwyd y geiriau yn y cromfachau sgwâr hyn os yw'r Contract yn gontract JCT.

²⁷ Defnyddiwyd y geiriau yn y cromfachau sgwâr hyn os yw'r Contract yn gontract NEC.

²⁸ Defnyddiwyd y geiriau yn y cromfachau sgwâr hyn os yw'r Contract yn gontract JCT.

²⁹ Defnyddiwyd y geiriau yn y cromfachau sgwâr hyn os yw'r Contract yn gontract NEC.

³⁰ Defnyddiwyd y geiriau yn y cromfachau sgwâr hyn os yw'r Contract yn gontract JCT.

- 3.6 Yn amodol ar gydymffurfiaeth Is-gontractwr perthnasol Cyfrif Banc y Prosiect â chymal 3.5, [bydd y Contractwr yn rhoi'r manylion a ddarperir yn unol â chymal 3.5 i Ddeiliad y Cyfrif yn brydlon a]³¹ bydd Deiliad y Cyfrif yn darparu manylion banc Is-gontractwr Cyfrif Banc y Prosiect i'r Banc mewn digon o amser i'r Banc brosesu cyfarwyddyd gan Ddeiliad y Cyfrif.
- 3.7 Mae Is-gontractwyr Cyfrif Banc y Prosiect yn cydnabod ac yn derbyn y gall methu â chydymffurfio â chymal 3.5 arwain at arian ddim yn cael ei dalu iddynt naill ai yn unol â'u His-gontract neu yn gyfan gwbl ac nad oes gan Ddeiliad y Cyfrif unrhyw atebolrwydd am fethiant o'r fath.
- 3.8 Bydd unrhyw log a delir gan y Banc mewn perthynas â'r arian a ddelir yn y Cyfrif Banc yn perthyn i Ddeiliad y Cyfrif [yn y cyfrannau y mae'n hysbysu'r Banc amdanynt yn ysgrifenedig],³² a gellir ei dynnu ar ôl [talur swm terfynol sy'n ddyledus o dan y Contract]³³/[y dyddiad dyledus ar gyfer y taliad terfynol fel y nodir yn y Datganiad Terfynol neu Ddatganiad Terfynol y Cyflogwr (fel y'i diffinnir yn y Contract)]³⁴.
- 3.9 Bydd unrhyw ffioedd banc, costau trosglwyddo arian ac alldaliadau eraill wrth sefydlu a gweithredu'r Cyfrif Banc yn cael eu talu gan Ddeiliad y Cyfrif [yn y cyfrannau y mae'n hysbysu'r Banc amdanynt yn ysgrifenedig]³⁵.
- 3.10 Mae'r Contractwr ac Is-gontractwyr Cyfrif Banc y Prosiect yn cydnabod bod y [Cleient]/[Cyflogwr] yn destun archwiliad gan Weinidogion Cymru ac mae'r Partion drwy hyn yn cytuno y gall Deiliad y Cyfrif awdurdodi'r Banc i roi hawliau mynediad i'r Cyfrif Banc i Weinidogion Cymru at ddibenion monitro gweithgaredd y Cyfrif Banc yn unol â'u hawliau i archwilio'r [Cyflogwr]/[Cleient] yn unig].

4. Is-gontractwyr newydd Cyfrif Banc y Prosiect

- 4.1 Yn amodol ar y Contractwr yn cael cydsyniad ysgrifenedig y [Cleient]/[Cyflogwr], yn unol â'r Contract, gall unrhyw barti a gyflogir i gyflawni gwaith mewn perthynas â'r Prosiect ddod yn Is-gontractwr Cyfrif Banc y Prosiect a bydd y [Cleient]/[Cyflogwr], y Contractwr ac Is-gontractwr newydd arfaethedig Cyfrif Banc y Prosiect yn gweithredu Gweithred Ymuno er mwyn cwblhau'r broses honno.
- 4.2 Mae'r Partion yn cytuno, wrth lofnodi Gweithred Ymuno, fod y [Cleient]/[Cyflogwr] yn llofnodi ar ei ran ei hun a bod y Contractwr yn llofnodi ar ei ran ei hun ac fel asiant ar gyfer pob un o Is-gontractwyr Cyfrif Banc y Prosiect, sydd wedi dod yn barti i'r Weithred Ymddiriedolaeth yn rhinwedd Gweithred Ymuno flaenorol ("Is-gontractwr presennol Cyfrif Banc y Prosiect"). Mae pob Is-Gontractwr presennol Cyfrif Banc y Prosiect yn cytuno i gael ei rwymo gan delerau unrhyw Weithred Ymuno a weithredir yn ddilys gan y Contractwr a'r [Cleient]/[Cyflogwr].

³¹ Dim ond os mai Deiliad y Cyfrif yw'r Cleient/Cyflogwr y dylech ddefnyddio'r geiriau mewn cromfachau sgwâr.

³² Defnyddiwch y geiriau mewn cromfachau sgwâr lle mae Cyfrif Banc y Prosiect yn gyfrif ar y cyd.

³³ Defnyddiwch y geiriau yn y cromfachau sgwâr hyn os yw'r Contract yn contract NEC.

³⁴ Defnyddiwch y geiriau yn y cromfachau sgwâr hyn os yw'r Contract yn contract JCT.

³⁵ Defnyddiwch y geiriau mewn cromfachau sgwâr lle mae Cyfrif Banc y Prosiect yn gyfrif ar y cyd.

5. Dileu Is-gontractwr Cyfrif Banc y Prosiect

- 5.1 Cyn diwedd y Tymor, os bydd Is-gontractwr Cyfrif Banc y Prosiect yn peidio â bod yn rhan o'r Prosiect am ba bynnag reswm (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i derfynu ei Is-gontract), bydd Deiliad y Cyfrif yn trefnu i unrhyw arian a gedwir ar ymddiriedolaeth er budd Is-gontractwr Cyfrif Banc y Prosiect gael ei dalu allan o'r Cyfrif Banc i'r Is-gontractwr hwnnw.
- 5.2. Ar ôl talu'r arian sy'n ddyledus iddo o'r Cyfrif Banc yn unol â chymal 5.1, bydd Is-gontractwr perthnasol Cyfrif Banc y Prosiect yn peidio â bod ag unrhyw hawliau a/neu fuddiannau pellach yn y Cyfrif Banc.

6. Cyfrinachedd

Ni fydd unrhyw Barti yn defnyddio nac yn datgelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol y mae'n ei chaffael (sut bynnag y caiff ei chaffael) mewn perthynas â busnes Parti arall ac eithrio wrth gyflawni'r Weithred hon neu ei rwymedigaethau eraill mewn perthynas â'r Prosiect.

7. Terfynu

- 7.1 Bydd y Weithred hon yn parhau am y Tymor, yn amodol ar derfyniad cynnar yn unol â chymal 7.2 isod.
- 7.2 Bydd y Weithred hon yn dod i ben ar unwaith ar y dyddiad mae'r holl arian wedi'i dalu allan o'r Cyfrif Banc yn unol â chymal 7.3, yn dilyn y cynharaf o'r canlynol:
- 7.2.1 dyddiad unrhyw gytundeb ysgrifenedig rhwng y Partïon sy'n terfynu'r Weithred hon; a/neu
- 7.2.2 ddyddiad terfynu'r Contract,
- 7.3 Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y naill neu'r llall o'r digwyddiadau yng nghymal 7.2.1 neu 7.2.2, mae Deiliad y Cyfrif yn ymrwmo i gyfarwyddo'r Banc i dalu i'r Contractwr ac Is-gontractwyr Cyfrif Banc y Prosiect yr holl arian a gedwir ar ymddiriedolaeth ar gyfer y partïon hynny yn y symiau perthnasol (llai unrhyw daliadau a threuliau banc sy'n ddyledus) ac i dalu unrhyw log a allai fod wedi cronni i Ddeiliad y Cyfrif, yn unol â thelerau'r Weithred hon.

8. Cyffredinol

- 8.1. Mae'r Weithred hon yn cynnwys y cytundeb cyfan rhwng y Partïon ac mae'n disodli unrhyw gytundeb ysgrifenedig neu lafar blaenorol rhyngddynt ac nid yw'n cael ei heffeithio gan unrhyw addewid, cynrychiolaeth, gwarant, defnydd, arfer neu ddull gweithredu arall. Mae'r Partïon yn cadarnhau nad ydynt wedi ymrwmo i'r Weithred hon ar sail unrhyw gynrychiolaeth nad yw wedi'i hymgorffori'n benodol yn y Weithred hon. Ni fydd unrhyw beth yn y Weithred hon yn eithrio atebolrwydd am unrhyw ddatganiad neu weithred dwyllodrus a wnaed cyn dyddiad y Weithred hon.

- 8.2. Ni fydd unrhyw hepgoriad gan unrhyw Barti o dorri'r Weithred hon mewn unrhyw ffordd yn cael ei ystyried yn hepgoriad ar gyfer unrhyw achos dilynol o dorri'r un ddarpariaeth neu unrhyw ddarpariaeth arall.
- 8.3. Ni fydd annilysrwydd, anghyfreithlondeb neu anorfodadwyedd unrhyw un o ddarpariaethau'r Weithred hon yn effeithio ar ddilysrwydd, cyfreithlondeb na gorfodadwyedd gweddill darpariaethau'r Weithred hon.
- 8.4. Ni fydd unrhyw Barti yn atebol am unrhyw oedi neu fethiant wrth gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Weithred hon o ganlyniad i resymau y tu hwnt i'w reolaeth resymol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i weithredoedd Duw, rhyfel, llifogydd, tân, anghydfodau llafur, oedi gan Is-gontractwr Cyfrif Banc y Prosiect, streiciau, cloi allan, terfysgoedd, cynnwrf sifil, difrod maleisus, ffrwydrad, gweithredoedd y llywodraeth ac unrhyw ddigwyddiadau tebyg eraill. Nid yw methu â gwneud taliad oherwydd diffyg arian yn y Cyfrif Banc yn ddigwyddiad force majeure.
- 8.5. Mae Is-gontractwyr Cyfrif Banc y Prosiect yn atebol am eu gweithredoedd a/neu eu hepgoriadau eu hunain yn unig o dan y Weithred hon, ac nid gweithredoedd a/neu hepgoriadau unrhyw un o'r Is-gontractwyr eraill. Nid yw Is-gontractwyr Cyfrif Banc y Prosiect yn atebol ar y cyd ac yn unigol o dan y Weithred hon.
- 8.6. Ni chaiff unrhyw Barti neilltuo ei fuddiant yn y Weithred hon (neu unrhyw ran ohoni) heb gydsyniad ysgrifenedig y Partïon eraill, ac ni ddylai cydsyniad o'r fath gael ei wrthod neu ei oedi'n afresymol.
- 8.7. Ni fydd unrhyw un o delerau ac amodau'r Weithred hon yn orfodadwy gan unrhyw berson nad yw'n barti iddi.
- 8.8. Mae'r Weithred hon yn cael ei llywodraethu a'i dehongli yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr (fel y mae'n berthnasol yng Nghymru) ac mae'r Partïon yn cytuno i ddarostwng i awdurdodaeth unigryw llysoedd Cymru a Lloegr.

YN DYST I'R UCHOD mae'r Partïon yn gweithredu'r ddogfen hon fel Gweithred ar y dyddiad a ysgrifennwyd uchod.

Wedi'i GWEITHREDU fel GWEITHRED gan:

[CLEIENT]/[CYFLOGWR]

drwy osod ei sêl gyffredin yma

ym mhresenoldeb y canlynol:

.....

Llofnod

.....

Enw mewn priflythrennau

.....

Llofnod

.....

Teitl swydd

NEU

yn gweithredu gan ddau gyfarwyddwr neu un
cyfarwyddwr ac ysgrifennydd y cwmni:

.....

Enw mewn priflythrennau

.....

Llofnod y Cyfarwyddwr

.....

Enw mewn priflythrennau

.....

Llofnod y Cyfarwyddwr/Ysgrifennydd y Cwmni

NEU

yn gweithredu gan un cyfarwyddwr ym
mhresenoldeb tyst:

.....

Enw mewn priflythrennau

.....

Llofnod y Cyfarwyddwr

Llofnod y Tyst:

.....

Enw'r Tyst:

.....

Cyfeiriad y Tyst:

.....

Galwedigaeth y Tyst:

Wedi'i GWEITHREDU fel GWEITHRED gan:

[CONTRACTWR]

yn gweithredu gan ddau gyfarwyddwr neu un
cyfarwyddwr ac ysgrifennydd y cwmni:

.....

Enw mewn priflythrennau

.....

Llofnod y Cyfarwyddwr

.....

Enw mewn priflythrennau

.....

Llofnod y Cyfarwyddwr/Ysgrifennydd y Cwmni

NEU

yn gweithredu gan un cyfarwyddwr ym
mhresenoldeb tyst:

.....

Enw mewn priflythrennau

.....

Llofnod y Cyfarwyddwr

Llofnod y Tyst:

Enw'r Tyst:

Cyfeiriad y Tyst:

.....

Galwedigaeth y Tyst:

[Wedi'i GWEITHREDU fel GWEITHRED gan:

[IS-GONTRACTWR CYFRIF BANC Y PROSIECT]³⁶

yn gweithredu gan ddau gyfarwyddwr neu un
cyfarwyddwr ac ysgrifennydd y cwmni:

.....

Enw mewn priflythrennau

.....

Llofnod y Cyfarwyddwr

.....

Enw mewn priflythrennau

.....

Llofnod y Cyfarwyddwr/Ysgrifennydd y Cwmni

NEU

yn gweithredu gan un cyfarwyddwr ym
mhresenoldeb tyst:

.....

Enw mewn priflythrennau

.....

Llofnod y Cyfarwyddwr

Llofnod y Tyst:

.....

Enw'r Tyst:

.....

Cyfeiriad y Tyst:

.....]

.....

Galwedigaeth y Tyst:

.....

³⁶ Mewnosodwch floc gweithredu ar gyfer pob Is-Gontractwr Cyfrif Banc y Prosiect a enwir [yn Nata'r Contract]/[ym Manylion y Contract]. Os nad oes neb wedi'u henwi, dilëwch y bloc gweithredu.

Atodlen 1: Gweithred Ymuno

Mae'r **WEITHRED HON**

dyddiedig

20[]

RHWNG: -

- (1) **Y PARTIÖN PRESENNOL** (fel y'u diffinnir yng nghymal 1); a
- (2) **[IS-GONTRACTWR NEWYDD CYFRIF BANC Y PROSIECT]** (Rhif y cwmni: [rhif]) y mae ei swyddfa gofrestredig yn [cyfeiriad] ("Parti Newydd").

Cyfeirir atynt gyda'i gilydd yn y Weithred hon fel "y Partion".

Cefndir

- A. Mae'r Partion Presennol wedi ymrwymo i Weithred Ymddiriedolaeth (fel y'i diffinnir isod).
- B. Mae'r Parti Newydd yn is-gontractwr neu'n is-is-gontractwr (o unrhyw haen) o'r Contractwr.
- C. Mae'r [Cleient]/[Cyflogwr], y Contractwr a'r Parti Newydd wedi cytuno y bydd y Parti Newydd yn cael ei dalu am y gwaith a/neu'r gwasanaethau i'w cyflawni o dan ei is-gontract neu ei is-is-gontract gan ddefnyddio Cyfrif Banc y Prosiect (fel y'i diffinnir isod).
- D. Mae'r Weithred hon yn ffurfio'r telerau y mae'r Parti Newydd yn cytuno i gael ei dalu am y gwaith a/neu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu mewn perthynas â'r Prosiect drwy Gyfrif Banc y Prosiect arnynt ac mae'n nodi hawliau a buddiannau'r Parti Newydd yn yr arian a gynhwysir yng Nghyfrif Banc y Prosiect.

1. Diffiniadau

- 1.1. Yn y Weithred hon, mae i'r geiriau canlynol yr ystyron canlynol:

"Dyddiad Derbyn"	dyddiad y Weithred hon;
"Contract"	y contract rhwng y [Cleient]/[Cyflogwr] a'r Contractwr dyddiedig [dyddiad] ar gyfer y Prosiect;
"Contractwr"	[enw] (Rhif y Cwmni: [rhif]) y mae ei swyddfa gofrestredig yn [cyfeiriad];
"Partion Presennol"	y personau/sefydliadau y nodir eu henwau yn Atodiad 1 i'r Weithred hon sef y partion presennol i'r Weithred Ymddiriedolaeth;
"Gweithred Ymddiriedolaeth"	y weithred rhwng y Partion Presennol dyddiedig [DYDDIAD] sy'n nodi'r sail y mae Cyfrif Banc y Prosiect i'w weithredu mewn perthynas â'r Prosiect arno;
"[Cleient]/[Cyflogwr]"	[enw] [(Rhif y Cwmni: [rhif])] y mae ei swyddfa gofrestredig yn [cyfeiriad];

"Prosiect"	[mewnosodwch ddisgrifiad o'r prosiect];
"Cyfrif Banc y Prosiect"	y cyfrif banc a ddelir yn enw'r [Cleient/Cyflogwr]/ [Contractwr a'r Cleient/Cyflogwr] ³⁷ yn rhif y cyfrif [BANC] [RHIF] y mae'r holl arian sy'n ddyledus mewn perthynas â'r Contract i'w dalu i mewn iddo.

2. Cytundeb

2.1 Mae'r Partion i'r Weithred hon yn cytuno:

2.1.1 Mae'r Parti Newydd yn dod yn barti i'r Weithred Ymddiriedolaeth o'r Dyddiad Derbyn a bydd yn Is-gontractwr Cyfrif Banc y Prosiect at ddibenion y weithred honno;

2.2.2 gellir ychwanegu isgontractwyr ac is-is-gontractwyr eraill a gyflogir mewn perthynas â'r Prosiect fel partion i'r Weithred Ymddiriedolaeth drwy gytundeb rhwng y [Cleient]/[Cyflogwr] a'r Contractwr, ac mae'r Parti Newydd yn cydnabod ac yn cytuno y bydd unrhyw gytundeb o'r fath yn ddigonol at ddibenion ystyried cydsyniad y Parti Newydd i ychwanegu'r parti perthnasol at y Weithred Ymddiriedolaeth;

2.2.3 mae'r Weithred hon yn ddarostyngedig i gyfraith Cymru a Lloegr (fel y'i cymhwysir yng Nghymru); ac

2.2.4 ni chaniateir neilltuo budd y Weithred hon.

³⁷ Dilëwch fel y bo'n briodol yn dibynnu ar ai deiliad y cyfrif yw'r Awdurdod Contractio fel Cleient/Cyflogwr neu a fydd cyfrif ar y cyd rhwng y Contractwr a'r Cleient/Cyflogwr.

ATODIAD 1: Y PARTÏON PRESENNOL

1. Y [Cleient]/[Cyflogwr]
2. Y Contractwr
3. [rhestrwch unrhyw Is-gontractwyr Cyfrif Banc y Prosiect sydd eisoes yn barti i'r Weithred Ymddiriedolaeth yn rhinwedd ymrwymo i Weithred Ymuno]³⁸ ("Is-gontractwyr Cyfrif Banc y Prosiect")]

YN DYST I'R UCHOD mae'r Partïon yn gweithredu'r ddogfen hon fel Gweithred ar y dyddiad a ysgrifennwyd uchod.

Wedi'i GWEITHREDU fel GWEITHRED gan:

[CLEIENT]/[CYFLOGWR]

drwy osod ei sêl gyffredin yma
ym mhresenoldeb y canlynol:

.....

Llofnod

.....

Enw mewn priflythrennau

.....

Llofnod

.....

Teitl swydd

³⁸ Mewnosodwch fanylion pob parti (ac eithrio'r [Cleient]/[Cyflogwr] a'r Contractwr) sy'n barti i'r Weithred Ymddiriedolaeth (yn rhinwedd gweithredu Gweithred Ymuno). Ni fydd unrhyw fanylion is-gontractwr mewn perthynas â'r Weithred Ymuno gyntaf.

NEU

yn gweithredu gan ddau gyfarwyddwr neu un
cyfarwyddwr ac ysgrifennydd y cwmni:

.....

Enw mewn priflythrennau

.....

Llofnod y Cyfarwyddwr

.....

Enw mewn priflythrennau

.....

Llofnod y Cyfarwyddwr/Ysgrifennydd y Cwmni

NEU

yn gweithredu gan un cyfarwyddwr ym
mhresenoldeb tyst:

.....

Enw mewn priflythrennau

.....

Llofnod y Cyfarwyddwr

Llofnod y Tyst:

.....

Enw'r Tyst:

.....

Cyfeiriad y Tyst:

.....]

.....

Galwedigaeth y Tyst:

.....

Wedi'i GWEITHREDU fel GWEITHRED gan:

[CONTRACTWR]

yn gweithredu gan ddau gyfarwyddwr neu un
cyfarwyddwr ac ysgrifennydd y cwmni:

.....

Enw mewn priflythrennau

.....

Llofnod y Cyfarwyddwr

.....

Enw mewn priflythrennau

.....

Llofnod y Cyfarwyddwr/Ysgrifennydd y Cwmni

NEU

yn gweithredu gan un cyfarwyddwr ym
mhresenoldeb tyst:

.....

Enw mewn priflythrennau

.....

Llofnod y Cyfarwyddwr

Llofnod y Tyst:

.....

Enw'r Tyst:

.....

Cyfeiriad y Tyst:

.....]

.....

Galwedigaeth y Tyst:

.....

Wedi'i GWEITHREDU fel GWEITHRED gan:

[IS-GONTRACTWR NEWYDD]

yn gweithredu gan ddau gyfarwyddwr neu un
cyfarwyddwr ac ysgrifennydd y cwmni:

.....

Enw mewn priflythrennau

.....

Llofnod y Cyfarwyddwr

.....

Enw mewn priflythrennau

.....

Llofnod y Cyfarwyddwr/Ysgrifennydd y Cwmni

NEU

yn gweithredu gan un cyfarwyddwr ym
mhresenoldeb tyst:

.....

Enw mewn priflythrennau

.....

Llofnod y Cyfarwyddwr

Llofnod y Tyst:

.....

Enw'r Tyst:

.....

Cyfeiriad y Tyst:

.....]

.....

Galwedigaeth y Tyst:

.....

NEC3/4 Engineering and Construction Contract Model Clauses for payment of the Retention

Add new clause 11.2()	“11.2() Completion Application for Release means a written request from the Contractor to the [Client]/[Employer] on or after Completion: - identifying the Retention Sub-Contractor(s) to whom retention sums are to be released in addition to the <i>Contractor</i>; and - stating the amount to be released to the <i>Contractor</i> and each Retention Sub-Contractor identified in the request in accordance with this contract and the relevant sub-contract or sub-sub-contract.”
Add new clause 11.2()	“11.2() Defects Application for Release means a written request from the <i>Contractor</i> to the [Client]/[Employer] on or after the <i>defects date</i>: - identifying the Retention Sub-Contractor(s) to whom retention sums are to be released; and - stating the amounts to be released to the <i>Contractor</i> and each Retention Sub-Contractor identified in the request in accordance with this contract and the relevant sub-contract or sub-sub-contract.”
Add new clause 11.2()	“11.2() Interim Application for Release means a written request from the <i>Contractor</i> to the [Client]/[Employer] following practical completion of the whole of the <i>works</i> required to be undertaken by a Retention Sub-Contractor: - identifying the Retention Sub-Contractor(s) to whom retention sums are to be released; and - stating the amount to be released to each Retention Sub-Contractor identified in the request in accordance with the relevant sub-contract or sub-sub-contract.”
Add new clause 11.2()	11.2() A Retention Release Date occurs on each of the following:

	- the date on which the whole of the works to be undertaken by a Retention Sub-Contractor are assessed as being complete, in accordance with the relevant Sub-Contract; - Completion of the whole of the works; - the date on which the [Employer]/[Client] takes over the whole of the works; - the defects date.
Add new clause 11.2()	“11.2() Retention Sub-Contractors are all sub-contractors engaged by the <i>Contractor</i> and all sub-sub-contractors engaged in relation to the <i>works</i> , whose sub-contract or sub-sub-contract provides for the retention of sums.
Add new clause 11.2()	“11.2() Takeover Application for Release means a written request given to the [Client]/[Employer] from the <i>Contractor</i> following the take over of the whole of the <i>works</i> by the [Client]/[Employer] prior to Completion: - identifying the Retention Sub-Contractor(s) to whom retention sums are to be released; and - stating the amount to be released to the <i>Contractor</i> and each Retention Sub-Contractor in accordance with this contract and the relevant sub-contract or sub-sub-contract.”
X16.2	Delete X16.2 and replace with: “Subject to the assessment of the Project Manager in accordance with clause Z.[]4 the amount retained is halved - in relation to the amount retained from each Retention Sub-Contractor identified in an Interim Application for Release; and - in relation to the amount retained from the <i>Contractor</i> on submission of a Completion Application for Release or a Takeover Application for Release together with any Retention Sub-Contractor identified in those applications. - The amount retained remains at this amount until a Defects Application for Release is submitted by the Contractor or the defects date occurs.”
[X16.3	Insert a new clause X16.3, as follows: “If agreed by the <i>Employer</i>, the <i>Contractor</i> may give the <i>Employer</i> a retention bond, provided by a bank or insurer which the <i>Project Manager</i> has accepted, for the total amount to be retained and in

	the form appended to this contract at [Annex []]/[Schedule []]. A reason for not accepting the bank or insurer is that its commercial position is not strong enough to carry the bond. No sums are retained from payments to the <i>Contractor</i> following the provision of a retention bond in accordance with this clause and any amount retained prior to provision of the retention bond is paid to the <i>Contractor</i> in the next assessment.” ³⁹
[X16.3	In X16.3 delete “in the form set out in the Scope and replace with: “in the form appended to this contract at [Annex []]/[Schedule []]]” ⁴⁰
X16.4	Insert a new clause X16.4, as follows: “X14.1 If the <i>Contractor</i> provides a Retention Bond it may request a retention bond from a sub-contractor, but where the sub-contractor is not reasonably able to provide a retention bond the <i>Contractor</i> may not include in its subcontracts a provision for the retention of sums from any sub-contractor and must use reasonable endeavours to ensure that sums are not retained from any sub-sub-contractor (of any tier) engaged in relation to the works. X14.2 a reason for not being able to provide a bond is that it is not available to the sub-contractor at commercially reasonable rates or on commercially reasonable terms due to • The sub-contractor’s financial records, and/or • The value of the retention.
X16.5	Insert a new clause X16.5 as follows: • “The [Employer]/[Client] notifies the Contractor 14 days’ prior to making a demand under the Retention Bond. • The Contractor notifies the [Employer]/[Client] if it disputes the demand and refers the dispute to adjudication prior to expiry of the notification period in the [Employer’s]/[Client’s] notice. • The [Employer]/[Client] does not make a demand under the Retention Bond if the Contractor refers it to adjudication unless the Retention Bond expires during the notice period or may expire during the adjudication period.

³⁹ This new clause to be included in NEC3 ECC only.

⁴⁰ This amendment to be included in NEC4 ECC only.

	The Employer may make a demand on the Retention Bond if the adjudicator finds in its favour.”
Add a Z clause	“Retention Payments Z[].1 The <i>Contractor</i> includes in its sub-contracts and procures that its sub-contractors include in each sub-sub-contract with Retention Sub-Contractors the provisions in this clause Z[] for the arrangements for payment of retention amounts due to Retention Sub-Contractors. Z[].2 The Contractor gives the <i>[Client]/[Employer]</i> details of each Retention Sub-Contractor. Z[].3 Following a Retention Release Date, the <i>Contractor</i> submits to the Project Manager, with its next application for payment, the relevant: - Interim Application for Release; or - Completion Application for Release; or - Defects Application for Release; or - Takeover Application for Release, as appropriate and in accordance with the provisions of this contract Z[].4 At the next assessment date following a Retention Release Date, the Project Manager assesses the amount of the retention to be paid to the Contractor on the occurrence of the preceding Retention Release Date whether or not the Contractor submits an Interim Application for Release, Completion Application for Release, Defects Application for Release and/or Takeover Application for Release. Z[].5 In addressing the amount of retention to be released the Project Manager takes into account any Interim Application for Release, Completion Application for Release, Defects Application for Release and/or Takeover Application for Release submitted by the Contractor before the assessment date. Z[].6 The Project Manager includes the amount of retention assessed as to be released in the certificate to be issued under and in accordance with clause 51.1

	Z[].7 The Project Manager corrects any incorrectly assessed amount due in a later payment certificate. Z[].8 Payment of any retention included in the Project Manager's certificate is made in accordance with clause 51. Z[].9 The Contractor pays the Retention Sub-Contractors to whom it is contracted and procures that those Retention Subcontractors pay the Retention Sub-Contractors to whom they are contracted, the sums due to them as set out in the payment certificate or, otherwise in accordance with the Contractor's Interim Application for Release, Completion Application for Release, Defects Application for Release and/or Takeover Application for Release, as relevant. Z[].10 Where, at the <i>defects date</i>, there are outstanding defects which have been notified to the <i>Contractor</i>, the <i>[Client]/[Employer]</i> may retain from any sums to be paid under Z[].8 the cost, reasonably estimated by the <i>Project Manager</i>, of engaging an alternative contractor to remedy such defects. Where the actual cost to the <i>[Client]/[Employer]</i> of remedying such defects exceeds the sums retained, the <i>[Client]/[Employer]</i> may recover the shortfall from the <i>Contractor</i>, as a debt. Z[].11 If there is any dispute in respect of the sums to be paid under Z[].8 and/or Z[].10 either Party may refer it to adjudication or commence such other dispute resolution procedures as are available under this contract. Z [].12 The <i>Contractor</i> acknowledges that payment by the <i>[Client]/[Employer]</i> in accordance with Z[].8 and/or Z[].10 discharges the <i>[Client's]/[Employer's]</i> obligation to release the amount retained under this contract in respect of sums due at the time of release. Z[].13 If the <i>Client</i> terminates this contract for any reason identified in the Termination Table and to which A3 applies, the <i>[Client]/[Employer]</i> is not obliged to make any further release of the amount retained.]
Add a new Annex/Schedule	“Retention Bond” [insert form of Retention Bond from the Welsh Government Model Social Public Works Clauses]

JCT 2016 Design and Build Contract Model Clauses for payment of the Retention

In clause 1.1 insert the following new definitions:	Interim Application for Release means a written request from the Contractor to the Employer following practical completion of the whole of the works required to be undertaken by a Retention Sub-Contractor: (1) identifying the Retention Sub-Contractor(s) to whom retention sums are to be released; and (2) stating the amount to be released to each Retention Sub-Contractor identified in the request in accordance with the relevant sub-contract or sub-sub-contract.”
	“Possession Application for Release means a written request submitted to the Employer by the Contractor following possession of the Works in accordance with clause 2.30: (a) identifying the Retention Sub-Contractor(s) to whom retention sums are to be released; and (b) stating the amount to be released to the Contractor and each Retention Sub-Contractor in accordance with the Contract and the relevant sub-contract or sub-sub-contract.”
	“Practical Completion Application for Release means a written request from the Contractor to the Employer on or after the issue of the Practical Completion Statement: (a) identifying the Retention Sub-Contractor(s) to whom retention sums are to be released; and (b) stating the amounts to be released to the Contractor and each Retention Sub-Contractor in accordance with this Contract and the relevant sub-contract or sub-sub-contract.”
	“Rectification Application for Release means a written request from the Contractor to the Employer on or after the expiry of the Rectification Period: (a) identifying the Retention Sub-Contractor(s) to whom retention sums are to be released; and (b) stating the amounts to be released to the Contractor and each Retention Sub-Contractor in accordance with this Contract and the relevant sub-contract or sub-sub-contract.”
	“A Retention Release Date occurs on each of the following:

	- the date on which the whole of the works to be undertaken by a Retention Sub-Contractor are assessed as being practically complete, in accordance with the relevant Sub-Contract; - practical completion of the whole of the works; - the date on which the Employer takes possession of the Works in accordance with clause 2.30; - the expiry of the Rectification Period.”
	“The Retention Sub-Contractors are all sub-contractors engaged by the Contractor and all sub-sub-contractors engaged in relation to the Works, whose sub-contract or sub-sub-contract provides for the retention of sums.”
	Delete “The Employer’s fiduciary in interest in the Retention referred to in clause 4.16 shall not prevent him” and insert “Nothing in this Contract shall prevent the Employer from”.
4.10.4	Delete “The Employer’s fiduciary in interest in the Retention referred to in clause 4.16 shall not prevent him” and insert “Nothing in this Contract shall prevent the Employer from”.
Interim Payments – calculation of sums due	
Gross Valuation – Alternative A	
4.12	Insert a new clause 4.12.2.6: “the value of the Retention which is due for payment in accordance with clause 4.18A.”
Gross Valuation – Alternative B	
4.13	Insert a new clause 4.13.2.6: “the value of the Retention which is due for payment in accordance with clause 4.18A
	Retention Rules on treatment of Retention
Clauses 4.16.1 & 4.16.2	Delete and insert:
“4.16.1	the Employer’s interest in the Retention shall not be fiduciary, either as trustee for the Contractor or any other person, or in any other capacity;

Cymalau Engbreifftiol Contractau Pwrpasol ar gyfer talu Symiau Dargadw

Mewnosodwch y diffiniadau canlynol	“Mae Cais Interim i Ryddhau yn golygu cais ysgrifenedig gan y Contractwr i'r Cyflogwr ar ôl i'r holl waith gael ei gwblhau yn ymarferol gan Is-gontractwr Symiau Dargadw: (a) nodi'r Is-gontractwr Symiau Dargadw y mae symiau dargadw i'w rhyddhau iddo: (b) nodi'r swm sydd i'w ryddhau i bob Is-gontractwr Symiau Dargadw a nodwyd yn y cais yn unol â'r is-gontract neu'r is-is-gontract perthnasol.”
	[“Mae Cais Meddiant i Ryddhau yn golygu cais ysgrifenedig a gyflwynir i'r Cyflogwr gan y Contractwr ar ôl i'r Cyflogwr gymryd meddiant o'r holl Waith gan y Cyflogwr cyn iddo gael ei gwblhau yn ymarferol: (a) yn nodi'r Is-gontractwr Symiau Dargadw y mae symiau dargadw i'w rhyddhau iddo; ac (b) yn nodi'r swm sydd i'w ryddhau i'r Contractwr a phob Is-gontractwr Symiau Dargadw yn unol â'r Contract a'r is-gontract neu'r is-is-gontract perthnasol.”]⁴¹
	“Mae Cais i Ryddhau ar ôl Cwblhau'r Gwaith yn Ymarferol yn golygu cais ysgrifenedig gan y Contractwr i'r Cyflogwr ar ôl cyhoeddi'r datganiad neu'r dystysgrif yn cadarnhau bod yr holl waith wedi'i gwblhau yn ymarferol: (a) yn nodi'r Is-gontractwr Symiau Dargadw y mae symiau dargadw i'w rhyddhau iddo; a (b) yn nodi'r symiau sydd i'w rhyddhau i'r Contractwr a phob Is-gontractwr Symiau Dargadw yn unol â'r contract a'r is-gontract neu'r is-is-gontract perthnasol.”
	“Mae Cais Cywiro i Ryddhau yn golygu cais ysgrifenedig gan y Contractwr i'r Cyflogwr ar neu ar ôl diwedd unrhyw gyfnod contractiol ar gyfer cywiro diffygion mewn perthynas â'r holl waith: (a) yn nodi'r Is-gontractwr Symiau Dargadw y mae symiau dargadw i'w rhyddhau iddo; a

⁴¹ Dim ond pan fo'r contract yn darparu ar gyfer meddiant cynnar gan y Cyflogwr a phan fo'r meddiant yn sbarduno cwblhau'r gwaith yn ymarferol a rhyddhau cyfran o'r symiau dargadw y dylid cynnwys y diffiniad hwn.

	(b) yn nodi'r symiau sydd i'w rhyddhau i'r Contractwr a phob Is-gontractwr Symiau Dargadw yn unol â'r contract a'r is-gontract neu'r is-is-gontract perthnasol.” “Mae Dyddiad Rhyddhau Symiau Dargadw yn digwydd ar bob un o'r canlynol: • y dyddiad y mae'r cyfan o'r gwaith sydd i'w wneud gan Is-gontractwr Dargadw Symiau yn cael ei asesu fel bod yn gyflawn, yn unol â'r Is-gontract perthnasol; • cwblhau'r cyfan o'r gwaith yn ymarferol; • [y dyddiad y mae'r Cyflogwr yn cymryd perchnogaeth o'r cyfan o'r Gwaith ar yr amod bod y dyddiad hwnnw cyn y cwblhau yn ymarferol;] • pan fydd unrhyw gyfnod yn y contract ar gyfer cywiro diffygion yn dod i ben.” “Yr Is-gontractwyr Symiau Dargadw yw yr holl is-gontractwyr a gyflogir gan y Contractwr a'r holl is-is-gontractwyr (o unrhyw haen) (pob un yn "Is-gontractwr" at ddibenion y darpariaethau yn y contract sy'n ymwneud â'r Symiau Dargadw) a gymerir ymlaen mewn perthynas â'r Gwaith, y mae eu his-gontract neu eu his-is-gontract yn darparu ar gyfer dargadw symiau.”
Mewnosodwch gymal	Rheolau Symiau Dargadw ar drin Symiau Dargadw
.1	ni fydd buddiant y Cyflogwr yn y Swm Dargadw yn ymddiriedol, naill ai fel ymddiriedolwr ar gyfer y Contractiwr neu unrhyw berson arall, nac mewn unrhyw rinwedd arall;
.2	bydd perthynas y Cyflogwr a'r Contractiwr mewn perthynas â'r Swm Dargadw yn un o ddyledwr a chredydwr ansicredig yn unig, yn ddarostyngedig i'r amodau hyn;
.3	ni fydd gan y Cyflogwr unrhyw rwymedigaeth i fuddsoddi'r Swm Dargadw nag unrhyw ran ohono:
.4	ni fydd gan y Cyflogwr unrhyw rwymedigaeth i gadw ar wahân y Swm Dargadw neu unrhyw ran ohono mewn cyfrif banc ar wahân, neu mewn unrhyw fodd arall o gwbl;
.5	bydd gan y Cyflogwr hawl i fuddiant llesiannol llawn yn y Swm Dargadw a phob rhan ohono (a, heb gyfyngiad, llog arno ac incwm sy'n deillio ohono) oni bai a hyd nes y bydd y Swm Dargadw wedi ei dalu i'r Contractiwr yn unol â'r Contract hwn.”

Mewnosodwch gymal	Bond Symiau Dargadw
.1	Os y cytunir gan y Cyflogwr ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyflogwr o'r gwarantwr (gan beidio â'i gadw'n ôl na'i oedi'n afresymol), gall y Contractwr roi bond dargadw i'r Cyflogwr am y cyfanswm i'w ddargadw ac yn y ffurf a atodir i'r contract hwn yn [Atodiad []/[Atodlen []]. Ni fydd y Cyflogwr yn afresymol yn gwrthod rhoi ei gydsyniad i'r gwarantwr os yw'n dod i'r casgliad rhesymol nad yw safle masnachol y gwarantwr yn ddigon cryf i gynnal y bond.
.2	Os yw'r Contractwr yn darparu bond dargadw yn unol â'r cymal hwn, nid oes gan y Cyflogwr yr hawl i gadw unrhyw symiau o unrhyw daliadau pellach sy'n ddyledus i'r Contractwr o dan y contract. Bydd unrhyw symiau sy'n cael eu dargadw cyn darparu'r bond dargadw yn cael eu had-dalu i'r Contractwr gyda'r taliad nesaf.
.3	Bydd y Cyflogwr yn rhoi 14 diwrnod o rybudd ysgrifenedig i'r Contractwr cyn gwneud unrhyw ofyniad o dan y bond dargadw. Os yw'r Contractwr, yn ystod y cyfnod rhybudd, yn codi anghydfod mewn perthynas â phwnc y gofyniad arfaethedig ac yn ei gyfeirio at ddyfarniad, ni fydd y Cyflogwr yn gwneud gofyniad ar y bond dargadw oni bai a hyd nes y mae dyfarnwr yn penderfynu'r anghydfod o blaid y Cyflogwr. Cyn belled ag y byddai'r bond dargadw yn dod i ben neu'n debygol o ddod i ben yn ystod y cyfnod rhybudd a/neu yn ystod y cyfnod dyfarnu, ni oes angen i'r 'Cyflogwr roi'r rhybudd sy'n ofynnol gan y cymal hwn cyn gwneud gofyniad."
Mewnosodwch gymal	Talu Swm Dargadw .1 Bydd y Contractwr yn cynnwys yn ei is-gontractau a bydd yn sicrhau bod ei is-gontractwyr yn cynnwys ym mhob is-is-gontract gydag Is-gontractwyr Symiau Dargadw y darpariaethau yn cymal [] hwn ar gyfer y trefniadau ar gyfer talu'r symiau dargadw sy'n ddyledus i Is-gontractwyr Symiau Dargadw. .2 Bydd y Contractwr yn darparu manylion pob Is-gontractwr Symiau Dargadw i'r Cyflogwr.

	.3 Yn dilyn Dyddiad Rhyddhau Symiau Dargadw, rhaid i'r Contractwr gyflwyno i'r Cyflogwr gyda ei gais nesaf am daliad y dogfennau perthnasol canlynol: • Cais Interim i Ryddhau; neu • Gais i Ryddhau ar ôl Cwblhau'r Gwaith yn Ymarferol; neu • Gais Cywiro i Ryddhau;[neu • Gais Meddiant i Ryddhau,] fel y bo'n briodol ac yn unol â darpariaethau'r contract hwn. .4 Yn dilyn Dyddiad Rhyddhau Swm Dargadw, mae'r Cyflogwr yn prasio faint o swm dargadw sydd i'w dalu i'r Contractwr ar y Dyddiad Rhyddhau Symiau Dargadw waeth a yw'r Contractwr yn cyflwyno Cais Interim i Ryddhau, Cais i Ryddhau ar ôl Cwblhau'r Gwaith yn Ymarferol, Cais Cywiro i Ryddhau [a/neu Gais Meddiant i Ryddhau] ai peidio. .5 Wrth roi gwerth ar y Swm Dargadw i'w dalu, mae'r Cyflogwr yn ystyried unrhyw Gais Interim i Ryddhau, Cais i Ryddhau ar ôl Cwblhau'r Gwaith yn Ymarferol, Cais Cywiro i Ryddhau [a/neu Gais Meddiant i Ryddhau] a gyflwynir gan y Contractwr gyda'i gais am daliad. .6 Mae'r Cyflogwr yn hysbysu'r Contractwr o faint y swm dargadw sydd wedi ei brisio yn ddyledus i'w dalu. Mae'r hysbysiad yn cynnwys manylion yr Is-gontractwyr Symiau Dargadw y mae taliad unrhyw ran o'r Swm Dargadw yn ddyledus iddynt a'r swm i'w dalu i bob Is-gontractwr Symiau Dargadw o'r fath ("Hysbysiad y Cyflogwr"). Mae'r swm a nodir yn hysbysiad y Cyflogwr yn cael ei gynnwys yn y taliad nesaf i'r Contractwr. .7 Os yw'r Cyflogwr yn methu â phrisio maint y Swm Dargadw i'w dalu, bydd maint y Swm Dargadw i'w gynnwys yn y taliad nesaf i'r Contractwr fel y'i nodir mewn unrhyw Gais Interim i Ryddhau, Cais i Ryddhau ar ôl Cwblhau'r Gwaith yn Ymarferol, Cais Cywiro i Ryddhau [a/neu Gais Meddiant i Ryddhau] a gyflwynir gan y Contractwr gyda'i gais am daliad.
--	---

	.8 Yn dilyn taliad gan Gyflogwr i'r Contractwr o unrhyw ran o'r Swm Dargadw, bydd y Contractwr yn talu'r Is-gontractwyr Symiau Dargadw y mae o dan gontract iddynt a bydd yn sicrhau bod yr Is-gontractwyr Symiau Dargadw hynny yn talu'r Is-gontractwyr Symiau Dargadw y maent o dan gontract iddynt, y symiau sy'n ddyledus iddynt fel y nodir yn Hysbysiad y Cyflogwr, neu os na derbyniwyd Hysbysiad y Cyflogwr, y swm a nodir ar unrhyw Gais Interim i Ryddhau, Cais i Ryddhau ar ôl Cwblhau'r Gwaith yn Ymarferol, Cais i Ryddhau ar gyfer Diffygion [a/neu Gais Meddiant i Ryddhau] fel y bo'n berthnasol, a gyflwynir gan y Contractwr gyda'i gais am daliad. .9 Os oes diffygion, crebachuadau neu namau eraill yn y gwaith sydd i'w gwblhau o dan y contract, y mae'r Cyflogwr wedi ei gwneud yn ofynnol i'r Contractwr eu cywiro yn unol â darpariaethau'r contract ac nad yw'r Contractwr wedi eu cywiro yn unol â'i rwymedigaethau o dan y contract, caiff y Cyflogwr gadw o unrhyw symiau i'w talu o dan y cymal [] hwn ei amcangyfrif rhesymol o gost cymryd ymlaen gontractwr arall i gyflawni rhwymedigaethau contractiol y Contractwr mewn perthynas â diffygion, crebachuadau neu namau eraill o'r fath. Pan fo'r gost wirioneddol i'r Cyflogwr o unioni'r diffygion, crebachuadau neu namau eraill o'r fath yn fwy na'r symiau a ddargedwir, caiff y Cyflogwr adennill y diffyg gan y Contractwr, fel dyled. 10 Os oes unrhyw anghydfod mewn perthynas â symiau sy'n ddyledus neu a dalwyd i'r Contractwr o dan y cymal [] hwn, caiff y naill Barti neu'r llall ei gyfeirio at ddyfarniad neu gychwyn unrhyw weithdrefnau datrys anghydfod eraill sydd ar gael o dan y contract. 11 Mae'r Contractwr yn cydnabod bod taliad gan y Cyflogwr yn unol â'r cymal [] hwn yn cyflawni rhwymedigaeth y Cyflogwr i dalu symiau sy'n ddyledus i'w talu o dan y contract mewn perthynas â'r symiau sy'n ddyledus adeg y taliad. 12 Os yw cyflogaeth y Contractwr yn cael ei therfynu oherwydd tor contract gan y Contractwr, neu ansolfedd y Contractwr, nid oes rhwymedigaeth ar y Cyflogwr i wneud
--	--

	unrhyw daliad pellach mewn perthynas â'r Symiau Dargadw.
Ychwanegwch Atodiad/Atodlen	“Bond Symiau Dargadw” [mewnosodwch ffurflen Bond Symiau Dargadw o Gymalau Gwaith Cyhoeddus Enghreifftiol Llywodraeth Cymru]

Ffurflen Enghreifftiol Bond Symiau Dargadw

FFURFLEN ENGHREIFFTIOL BOND SYMIAU DARGADW

DYDDIEDIG _____ 20

(1) [CONTRACTWR]

(2) [GWARANTWR]

(3) [CLEIENT/[CYFLOGWR]

BOND SYMIAU DARGADW

yn ymwneud â

[mewnosodwch ddisgrifiad o'r Gwaith]

RHWNG

- (1) Y "**Contractwr**" fel pennaeth,
- (2) Y "**Gwarantwr**" fel gwarantwr a
- (3) y "[Cleient]/[Cyflogwr]"

Gyda'i gilydd y "**Partïon**" y mae eu henwau a chyfeiriadau eu swyddfa gofrestredig wedi'u nodi yn yr Atodlen i'r Bond Symiau Dargadw hwn (yr "**Atodlen**")

OND

- (1) Drwy gontract (y "**Contract**") yr ymrwymwyd iddo neu sydd i'w wneud rhwng y [Cleient]/[Cyflogwr] a'r Contractwr (y nodir manylion amdano yn yr Atodlen), mae'r Contractwr wedi cytuno â'r [Cleient]/[Cyflogwr] i gyflawni gwaith (y "**Gwaith**") yn ddarostyngedig i'r telerau ac amodau a nodir yn y Contract.
- (2) Mae'r Gwarantwr wedi cytuno â'r [Cleient]/[Cyflogwr] ar gais y Contractwr i warantu taliad symiau sy'n hafal i'r symiau dargadw, y byddai gan y [Cleient]/[Cyflogwr] yr hawl i'w gadw oddi wrth y Contractwr, o bryd i'w gilydd, o dan ac yn unol â darpariaethau'r Contract (y "**Symiau Dargadw**") ac ar delerau ac amodau'r Bond Symiau Dargadw hwn yn ddarostyngedig i'r cyfyngiad a nodir yng nghymal 2.
- (3) Mae'r [Cleient]/[Cyflogwr] wedi cytuno, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Contract, na fydd yn arfer ei hawl i ddidynnu unrhyw symiau fel symiau dargadw o unrhyw daliadau interim sy'n ddyledus i'r Contractwr o dan y Contract pan fo'r Contractwr wedi darparu bond yn unol â'r Contract yn lle'r symiau y byddai gan y [Cleient]/[Cyflogwr] yr hawl i'w didynnu fel arall.

YN AWR MAE'R WEITHRED HON YN DYST fel a ganlyn:

1. Bydd gan dermau mewn priflythrennau yn y Bond Symiau Dargadw hwn yr ystyr a briodolir iddynt yng nghorff y Bond Symiau Dargadw hwn neu yn yr Atodlen.
2. O ystyried talu punt (£1) gan y [Cleient]/[Cyflogwr] i'r Gwarantwr (y mae'r Gwarantwr yn cydnabod ei fod wedi ei derbyn) ac yn ddarostyngedig i gymal 5 a chymal 8, mae'r Gwarantwr yn ymrwymo'n ddiwrthdroadwy ac yn ddiamod i dalu ar unwaith i'r [Cleient]/[Cyflogwr], ar ôl derbyn y galwadau ysgrifenedig cyntaf a'r holl ofynion ysgrifenedig dilynol a ddyroddwyd i'r Gwarantwr yn unol â'r Bond Symiau Dargadw hwn (y "**Gofyniad/Gofynion**"), y swm a nodir ym mhob Gofyniad o'r fath).
3. Er mwyn i'r Gwarantwr gael ei orfodi i wneud taliad i'r [Cleient]/[Cyflogwr] yn unol â chymal 2, rhaid i Ofyniad:
 - 3.1 Fod wedi'i gyfeirio'n ysgrifenedig at y Gwarantwr yng Nghyfeiriad y Gwarantwr ar gyfer Hysbysiad a nodir yn yr Atodlen;
 - 3.2 Cyfeirio at y Bond Symiau Dargadw hwn;

- 3.3 Nodi'r swm cyfanredol y byddai gan y [Cleient]/[Cyflogwr] yr hawl i'w ddidynnu o dan y Contract ar ffurf symiau dargadw, ar ddyddiad y Gofyniad, oni bai am y Bond Symiau Dargadw hwn (y "**Symiau Dargadw**");
- 3.4 Nodi'r swm y gofynnwyd amdano, na fydd yn fwy na'r swm sy'n gymwys o dan gymal 3.3;
- 3.5 Nodi'r diben y mae'r [Cleient]/[Cyflogwr] yn gofyn am y swm y gofynnwyd amdano, a darparu tystiolaeth resymol bod:
- (a) y diben yn un y mae gan y [Cleient]/[Cyflogwr] yr hawl i gymhwyso'r Symiau Dargadw iddo o dan y Contract;
 - (b) nad yw'r swm y gofynnwyd amdano yn fwy na'r hyn a amcangyfrifir yn rhesymol ei fod yn ofynnol at y diben.
4. Yn ddarostyngedig i gymal 2, bydd Gofyniad/Gofynion yn dystiolaeth bendant o atebolrwydd y Gwarantwr ac o'r swm neu'r symiau y mae'n atebol i'w dalu i'r [Cleient]/[Cyflogwr], er gwaethaf unrhyw wrthwynebiad a wneir gan y Contractwr neu unrhyw berson arall, a bydd y Gwarantwr, o fewn pum (5) Diwrnod Busnes i dderbyn Gofyniad, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Bond Symiau Dargadw hwn, yn talu'r swm a nodir yn y Gofyniad i'r cyfrif a nodir yn y Gofyniad.
5. Ni fydd uchafswm atebolrwydd cyfanredol y Gwarantwr o dan y Bond Gwarant hwn yn fwy na'r swm a nodir yn yr Atodlen (y "**Swm Bond**"), y bydd yr atebolrwydd hwnnw'n cael ei leihau i 50% (hanner cant y cant) o Swm y Bond ar ôl cyflwyno i'r Gwarantwr gopi o ddatganiad neu dystysgrif a ddyroddwyd o dan ac yn unol â'r Contract bod y gwaith sy'n ofynnol gan y Contract wedi'i gwblhau i'r graddau sy'n ofynnol gan y Contract i sbarduno rhyddhau hanner y Symiau Dargadw.
6. Ni fydd terfynu'r Contract na therfynu cyflogaeth y Contractwr o dan y Contract yn lleihau atebolrwydd y Gwarantwr o dan y Bond Symiau Dargadw hwn.
7. Ni fydd y Gwarantwr yn cael ei ryddhau, ac ni fydd ei atebolrwydd yn cael ei effeithio neu ei leihau mewn unrhyw ffordd, gan unrhyw newid i unrhyw un o delerau, amodau a darpariaethau'r Contract neu o ran maint neu natur y Gwaith, na chan ddiddymu, gweinyddu neu ddirymu'r Contractwr, nac unrhyw ymwadiad o'r Contract gan ddiddymwr y Contractwr a dim caniatâd amser na goddefgarwch, hepgoriad neu esgusodiad arall gan y [Cleient]/[Cyflogwr] o dan neu mewn perthynas â'r Contract neu'r Gwaith mewn unrhyw ffordd yn rhyddhau, yn lleihau neu'n effeithio ar atebolrwydd y Gwarantwr o dan y Bond Symiau Dargadw hwn.
8. P'un a fydd y Bond Symiau Dargadw hwn yn cael ei ddychwelyd i'r Gwarantwr ai peidio, bydd rhwymedigaethau'r Gwarantwr o dan y Bond Symiau Dargadw hwn yn cael eu rhyddhau yn llwyr ar ôl i'r Bond Symiau Dargadw hwn ddod i ben, ac eithrio mewn perthynas ag unrhyw dor contract sydd wedi digwydd ac y mae gofyniad yn unol â chymal 3 o'r Bond Symiau Dargadw hwn wedi'i wneud ar y Gwarantwr cyn y dyddiad dod i ben.

9. Bydd rhwymedigaeth y Gwarantwr i wneud taliad o dan y Bond Symiau Dargadw hwn yn rhwymedigaeth sylfaenol, annibynnol ac absoliwt ac ni fydd ganddo'r hawl i ohirio neu atal taliad am unrhyw reswm.
10. Bydd taliadau sy'n ddyledus o dan y Bond Symiau Dargadw hwn yn cael eu gwneud heb gyfeirio at y Contractwr ac er gwaethaf unrhyw anghydfod rhwng y [Cleient]/[Cyflogwr] a'r Contractwr a/neu a yw'r [Cleient]/[Cyflogwr] a'r Contractwr o dan unrhyw atebolrwydd i'r llall ai peidio.
11. Bydd yr holl daliadau o dan y Bond Symiau Dargadw hwn mewn punnoedd sterling, a byddant yn cael eu gwneud yn rhydd ac yn glir o unrhyw wrth-hawliad neu ddiidyniad ar gyfrif unrhyw atebolrwydd o gwbl gan gynnwys, heb gyfyngiad, unrhyw drethi, dyletswyddau, taliadau, ffioedd, didyniadau neu ataliadau nawr neu yn y dyfodol o unrhyw natur a chan bwy bynnag.
12. Mae'r Contractwr, ar ôl gofyn i'r Gwarantwr weithredu'r Bond Symiau Dargadw hwn, yn ymrwmo i'r Gwarantwr (heb gyfyngu ar unrhyw hawliau a rhwymedïau eraill y [Cleient]/[Cyflogwr] neu'r Gwarantwr yn erbyn y Contractwr) i gyflawni'r rhwymedigaethau ar ei ran, mewn perthynas â'r Symiau Dargadw fel y nodir yn y Contract.
13. Gellir neilltuo'r Bond Symiau Dargadw hwn a'r budd ohono heb gydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw y Gwarantwr neu'r Contractwr (i) fel sicrwydd i unrhyw fanc neu sefydliad arall sy'n darparu cyllid mewn cysylltiad â'r Gwaith (gan gynnwys ail-neilltuo ar ôl ad-dalu) a / neu (ii) i unrhyw barti y mae budd y Contract wedi'i neilltuo iddo, ond nid fel arall, ar yr amod na fydd rhaid i'r Gwarantwr wneud unrhyw daliad i unrhyw aseina i fyddai'n torri deddfwriaeth gwrth-wyngalchu arian neu sancsiynau.
14. Mae'r [Cleient]/[Cyflogwr] ar ôl cymryd budd y Bond Symiau Dargadw hwn, yn ymrwmo i'r Contractwr hysbysu'r Gwarantwr ei fod wedi'i ryddhau o'i ddyletswyddau a'i rhwymedigaethau o dan y Bond Symiau Dargadw hwn o fewn 5 (pump) diwrnod busnes i hawl y [Cleient]/[Cyflogwr] i ddal y Symiau Dargadw o dan y Contract ddod i ben.
15. Rhaid i unrhyw hysbysiad i'w gyflwyno o dan y Bond Symiau Dargadw hwn fod yn ysgrifenedig a rhaid ei gyflwyno â llaw neu drwy ddosbarthiad a gofnodwyd, ac yn achos corfforaeth rhaid ei gyflwyno yn ei swyddfa gofrestredig am y tro. Mewn unrhyw achos arall, caniateir cyflwyno hysbysiad i'r person yn unrhyw gyfeiriad am y tro. Bydd y gwasanaeth yn dod i rym, os caiff ei roi â llaw, ar y dyddiad gwaith cyntaf ar ôl dyddiad y dosbarthiad. Os caiff ei roi drwy'r post, bydd yn dod i rym dau (2) Ddiwrnod Busnes ar ôl ei bostio.
16. Nid yw'r partïon i'r Bond Symiau Dargadw hwn yn bwriadu y bydd unrhyw un o'i delerau yn orfodadwy, yn rhinwedd Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 neu fel arall, gan unrhyw berson nad yw'n barti iddo.

17. Bydd y Bond Symiau Dargadw hwn yn cael ei lywodraethu a'i ddehongli yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr (fel y'u cymhwysir yng Nghymru) a dim ond llysoedd Cymru a Lloegr fydd ag awdurdodaeth o dan hyn, ar yr amod y gall y [Cleient]/[Cyflogwr] orfodi unrhyw ddyfarniad mewn unrhyw awdurdodaeth.

Yr ATODLEN

- Contractwr:** [enw] (wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr gyda rhif y cwmni [rhif]) a'i gyfeiriad cofrestredig yw [cyfeiriad]
- Gwarantwr:** [enw] (wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr gyda rhif y cwmni [rhif]) a'i gyfeiriad cofrestredig yw [cyfeiriad]
- [Cleient]/[Cyflogwr]:** [enw] (wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr gyda rhif y cwmni [rhif]) a'i gyfeiriad cofrestredig yw [cyfeiriad]
- Contract:** Contract dyddiedig [dyddiad] rhwng y [Cleient]/[Cyflogwr] a'r Contractwr ar gyfer [mewnosodwch ddisgrifiad o'r gwaith] am y swm a nodir yn y contract hwnnw o £[ffigurau] ([geiriau] o bunnoedd)
- Swm y Bond:** Y swm o £[ffigurau] ([geiriau] o bunnoedd)
- Diwrnod Busnes** Diwrnod heblaw dydd Sadwrn neu ddydd Sul pan fo banciau ar agor ar gyfer busnes cyffredinol yng Nghymru a Lloegr.
- Cyfnod Diffygion** y cyfnod a nodir yn y Contract pan mae'n rhaid i'r Contractwr gywiro unrhyw ddiffygion yn y gwaith sy'n ofynnol gan y Contract.
- Dyddiad dod i ben:** Y cynharaf o (a) y dyddiad sydd bum (5) Diwrnod Busnes ar ôl [diwedd y Cyfnod Cywiro]⁴²/[y dyddiad diffygion (fel y'i diffinnir yn y Contract)]⁴³⁴⁴ a (b) y dyddiad mae'r Gwarantwr yn cael hysbysiad gan y [Cleient]/[Cyflogwr] (neu unrhyw aseinau sydd wedi'i hysbysu i'r Gwarantwr yn unol â chymal 13), sy'n rhyddhau'r Gwarantwr o'i ddyletswyddau a'i rwymedigaethau o dan y Bond Symiau Dargadw hwn.

Cyfeiriad y Gwarantwr

ar gyfer Hysbysiad: []

YN DYST i hynny mae'r Contractwr, y Gwarantwr a'r [Cleient]/[Cyflogwr] wedi gweithredu a chyflwyno'r Bond Gwarant hwn fel Gweithred dyddiedig 20

⁴² Y geiriau yn y cromfachau sgwâr hyn i'w defnyddio ar gyfer bond a ddarperir o dan contract JCT.

⁴³ Y geiriau yn y cromfachau sgwâr hyn i'w defnyddio ar gyfer bond a ddarperir o dan contract NEC.

⁴⁴ Lle na ddefnyddir contract JCT na NEC, dylid diwygio'r geiriad dod i ben i adlewyrchu darpariaethau'r contract.

Wedi'i GWEITHREDU fel GWEITHRED gan

[CONTRACTWR]

yn gweithredu drwy:

.....

Enw mewn Priflythrennau Llofnod y Cyfarwyddwr

.....

Enw mewn Priflythrennau Llofnod y Cyfarwyddwr/Ysgrifennydd y Cwmni

Wedi'i GWEITHREDU fel GWEITHRED gan

[GWARANTWR]

yn gweithredu drwy:

.....

Enw mewn Priflythrennau Llofnod y Cyfarwyddwr

.....

Enw mewn Priflythrennau Llofnod y Cyfarwyddwr/Ysgrifennydd y Cwmni

Wedi'i GWEITHREDU fel GWEITHRED gan

[CLEIENT]/[CYFLOGWR]

yn gweithredu drwy:

.....

Enw mewn Priflythrennau Llofnod y Cyfarwyddwr

.....

Enw mewn Priflythrennau Llofnod y Cyfarwyddwr/Ysgrifennydd y Cwmni



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymalau Enghreifftiol Cyflogaeth

- 1.1 Bydd y Contractwr (a bydd yn sicrhau y bydd unrhyw Is-contractwr), wrth gyflawni'r [Gwaith], yn mabwysiadu polisiau recriwtio a chyflogaeth cynhwysol sy'n ceisio darparu cyfleoedd cyflogaeth i:
 - (a) y rhai sydd â nodwedd warchodedig o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010;
 - (b) pobl o dan 21 oed (ond dros oedran ysgol gorfodol);
 - (c) pobl dros 50 oed;
 - (d) pobl sy'n ddi-waith hirdymor; a
 - (e) y rhai sydd dan anfantais fel arall.
- 1.2 Bydd y Contractwr (a bydd yn sicrhau y bydd unrhyw Is-contractwr), wrth gyflawni'r [Gwaith], yn ceisio nodi a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau sgiliau o fewn y gweithlu.
- 1.3 Bydd y Contractwr (a bydd yn sicrhau y bydd unrhyw Is-contractwr) yn ceisio darparu cyfleoedd cyflogaeth parhaus i'r gweithlu sy'n ymwneud â chyflawni'r [Gwaith] ar ôl iddo gael ei gwblhau.
- 1.4 Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â'r rhwymedigaethau a nodir yn 1.1 uchod, bydd y Contractwr (a bydd yn sicrhau y bydd unrhyw Is-contractwr):
 - (a) yn rhoi Cynllun Cyflogaeth ar waith sy'n amlinellu sut y bydd yn:
 - (i) Ceisio darparu cyfleoedd cyflogaeth i'r grwpiau hynny a nodir yn 1.1;
 - (ii) Ceisio nodi a mynd i'r afael â bylchau sgiliau o fewn y gweithlu;
 - (iii) Darparu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth barhaus i'r gweithlu sy'n ymwneud â chyflawni'r [Gwaith] ar ôl iddo gael ei gwblhau.
 - (b) Oni bai y'i darparwyd yn flaenorol, darparu'r Cynllun Cyflogaeth i'r Awdurdod Contractio o fewn [MEWNOSODWCH YR AMSERLEN] o ddechrau'r Contract Adeiladu Mawr.
 - (c) Yn darparu data i'r Awdurdod Contractio sy'n ofynnol gan Ganllawiau Statudol *i ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a amlinellir yn y cymal 1 hwn.*
- 1.5 *[Mae'n ofynnol i'r Contractwr lofnodi'r Cod Cyflogaeth Moesegol (Cod Ymarfer - Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 31 Mai 2017) ac unrhyw gynlluniau neu godau ymarfer cymwys tebyg a hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru, sydd ar gael drwy'r ddolen ganlynol: [Cyflogaeth foesebol mewn cadwyni cyflenwi: cod ymarfer | LLYW.CYMRU.](#)]*
- 1.6 *[Mae'r Contractwr yn mabwysiadu arferion cyflogaeth a llafur teg, gan recriwtio a chadw staff mewn modd teg a moesegol, gan ddarparu gweithlu diogel a chymwys a gyflogir yn unol â Chanllaw Llywodraeth Cymru ar Waith Teg.]*
- 1.7 *[Mae'n ofynnol i'r Contractwr gofrestru i'r [Cynllun Hyderus o ran Anabledd],[Hyrwyddwyr Amrywiaeth, Stonewall],[Hil – Busnes yn y Gymuned].*



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymalau Enghreifftiol Cydymffurfio

- 1.1 Bydd y Contractwr (a bydd yn sicrhau y bydd unrhyw Is-gontractwr) yn sicrhau ei fod:
- (i) yn cael ei hysbysu o'i rwymedigaethau cyfreithiol;
 - (ii) yn cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol (gan gynnwys gweithredu polisïau a gweithdrefnau perthnasol); ac
 - (iii) yn bodloni gofynion yr holl gyfraith berthnasol mewn perthynas â:
 - (i) chyflogaeth a hawliau cyflogaeth;
 - (ii) cydraddoldeb (boed mewn perthynas â hil, rhyw, ailbennu rhywedd, oedran, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, beichiogrwydd, mamolaeth, priodas, partneriaeth sifil neu fel arall);
 - (iii) iechyd a diogelwch; a
 - (iv) chydabyddiaeth undebau llafur.
- 1.2 Bydd y Contractwr (a bydd yn sicrhau y bydd unrhyw Is-gontractwr) yn sicrhau bod unrhyw Gyfryngwr Cyflogaeth yn cydymffurfio â gofynion cymal 1.1 uchod.
- 1.3 Bydd y Contractwr (a bydd yn sicrhau y bydd unrhyw Is-gontractwr) yn darparu o fewn [14] diwrnod i gais gan yr Awdurdod Contractio wybodaeth gywir a chyflawn fel y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Contractio, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:
- (i) Nifer Personél y Contractwr [a gyflogir] i ymgymryd â'r [Gwaith];
 - (ii) Statws [cyflogaeth] Personél y Contractwr (h.y. gweithiwr cyflogedig, gweithiwr asiantaeth, hunangyflogedig);
 - (iii) Yr isafswm cyfradd tâl fesul awr sy'n berthnasol i bob gradd neu gategori o Bersonél Contractwr;
 - (iv) Nifer Personél y Contractwr [a gyflogir] ar gontractau dim oriau neu heb eu gwarantu a'r telerau y maent yn cael eu cyflogi arnynt;
 - (v) Polisïau iechyd a diogelwch, asesiadau risg a/neu ardystiad;
 - (vi) Unrhyw gytundeb cydnabyddiaeth Undebau Llafur, cyngor gwaith neu drefniadau gwybodaeth ac ymgynghori eraill sydd ar waith;
 - (vii) Y prosesau sydd ar waith ar gyfer sicrhau ei gydymffurfiaeth â chyfraith cyflogaeth a hawliau cyflogaeth';
 - (viii) Y prosesau sydd ar waith ar gyfer bod unrhyw Is-gontractwr neu Gyfryngwr Cyflogaeth yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau yng nghymal 1.1 a 1.2 uchod.
- 1.4 Caiff yr Awdurdod Contractio ofyn am y wybodaeth a amlinellir yng nghymal 1.3 uchod ar ffurf:
- (i) Contractau cyflogaeth dienw, slipiau cyflog, polisïau a gweithdrefnau; ac

- (ii) unrhyw ddogfennaeth berthnasol arall.
- 1.5 Bydd y Contractwr (a bydd yn sicrhau y bydd unrhyw Is-contractwr) yn rhoi ar waith neu'n darparu gwybodaeth am unrhyw fecanwaith cyfrinachol presennol y gellir ei ddefnyddio i adrodd am unrhyw bryderon ynghylch arferion cyflogaeth anfoesegol, *[caethwasiaeth fodern, torri hawliau dynol neu safonau llafur ar y môr]*. Rhaid i fanylion y mecanwaith cyfrinachol hwn fod ar gael i holl Personél y Contractwr *[a'u darparu i'r Awdurdod Contractio]*.
- 1.6 *[Bydd y Contractwr (a bydd yn sicrhau bod unrhyw Is-contractwr) yn rhoi cynllun ar waith sy'n manylu ar sut y bydd y Contractwr drwy gydol y Contract yn:*
- (i) *Gweithredu a chynnal polisïau a gweithdrefnau i sicrhau ei gydymffurfiaeth â:*
 - (i) *Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015;*
 - (ii) *Rhwymedigaethau Hawliau Dynol; a*
 - (iii) *Safonau llafur ar y môr.*
 - (ii) *Cynnal asesiad risg (ar gyfer y DU a/neu dramor) mewn perthynas â chaethwasiaeth fodern, hawliau dynol a safonau llafur ar y môr mewn perthynas â'r [Gwaith] sy'n cynnwys asesiadau gwariant rheolaidd a manylion am sut y dylid mynd i'r afael â risgiau a nodwyd (gan gynnwys gofal i ddioddefwyr);*
 - (iii) *Monitro ac adrodd [i'r Awdurdod Contractio ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith cenedlaethol neu leol perthnasol] unrhyw achosion o gaethwasiaeth fodern neu dorri hawliau dynol neu safonau llafur ar y môr.]*
- 1.7 *[Bydd y Contractwr (a bydd yn sicrhau y bydd unrhyw Is-contractwr) yn darparu o fewn [14] diwrnod i gais gan yr Awdurdod Contractio wybodaeth gywir a chyflawn fel y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Contractio mewn perthynas â chydymffurfiaeth y Contractwr (neu unrhyw Is-contractwr) â'r rhwymedigaethau a amlinellir yng nghymal 1.5 (gan gynnwys darparu polisïau, gweithdrefnau a dogfennaeth berthnasol arall).]*
- 1.8 Yn y cymal hwn, mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol:
- (i) Personél Contractio; unrhyw unigolion sy'n cael eu cyflogi ar y safle mewn perthynas â'r [Gwaith] yn rhinwedd gweithiwr cyflogedig, gweithiwr, prentis, gweithiwr asiantaeth neu hunangyflogedig.
 - (ii) Cyfryngwr Cyflogaeth; unrhyw fusnes neu asiantaeth sy'n cyflenwi pobl yng nghyflogaeth y Cyfryngwr Cyflogaeth i weithredu ar gyfer, neu o dan reolaeth, y Contractwr (neu unrhyw is-contractwr perthnasol).



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymalau Enghreifftiol Hyfforddiant

- 1.1 Mewn perthynas â phwnc y contract hwn, bydd y Contractwr (a bydd yn sicrhau y bydd unrhyw Is-gontractwr) yn rhoi Cynllun Hyfforddi ar waith i sicrhau:
- (i) Bod hyfforddiant perthnasol yn cael ei ddarparu i Bersonél y Contractwr yn unol â safonau a chymwyseddau a gydnabyddir gan y diwydiant, gan gynnwys mewn perthynas â'r arferion cynaliadwy diweddaraf i'w galluogi i ymgymryd â'u dyletswyddau o dan y Contract;
 - (ii) Bod cyfleoedd hyfforddiant yn cael eu darparu i Bersonél y Contractwr i'w galluogi i gael sgiliau perthnasol a chymwysterau cydnabyddedig yn seiliedig ar anghenion y diwydiant nawr ac yn y dyfodol;
 - (iii) Bod Personél y Contractwr yn cael eu galluogi i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant perthnasol a gynigir iddynt yn ystod y Contract.
- 1.2 Mewn perthynas â phwnc y contract hwn, bydd y Contractwr (a bydd yn sicrhau y bydd unrhyw Is-gontractwr) o fewn [] diwrnod i Ddyfarnu'r Contract yn darparu i'r Awdurdod Contractio:
- (a) Y Cynllun Hyfforddi ar gyfer Personél y Contractwr.
 - (b) Nifer Personél y Contractwr sydd:
 - (i) Wedi dechrau Rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith cyn dechrau'r contract hwn a nifer y misoedd/blynyddoedd o hyfforddiant a gymerwyd; ac
 - (ii) Wedi dechrau Rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith, neu a fydd yn ei dechrau yn ystod cyfnod y contract a nifer y misoedd/blynyddoedd o hyfforddiant a gymerwyd.
 - (c) Manylion am unrhyw sgiliau perthnasol a chymwysterau cydnabyddedig a gafwyd ac sy'n parhau yn ystod y contract.
 - (d) Hyfforddiant lechyd a diogelwch a sefydlu prosiect a ddarperir i Bersonél y Contract.
- 1.3 Yn y cymal hwn, mae gan y Rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith y diffiniad y darperir ar ei gyfer o dan [Ganllawiau Statudol Llywodraeth Cymru].



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymalau Enghreifftiol Is-gontractio

- 1.1 Bydd y Contractwr yn darparu cynllun i'r Awdurdod Contractio ("y Cynllun Is-gontractio") sy'n cofnodi'r camau y bydd y Contractwr yn eu cymryd yn ystod y Contract i hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd is-gontractio ar gyfer busnesau bach a chanolig, micro-fentrau a sefydliadau gwirfoddol. Bydd y Contractwr yn darparu'r cynllun i'r Awdurdod Contractio o fewn [] diwrnod i ddyfarnu'r contract a bydd yn cynnwys manylion am y canlynol:
- (a) Dulliau hysbysebu
 - (b) Dulliau cyfathrebu â busnesau bach a chanolig
 - (c) Nodi a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau sy'n atal busnesau bach a chanolig, micro-fentrau neu sefydliadau gwirfoddol rhag gwneud busnes gyda'r Contractwr.

Bydd y cynllun yn nodi'r trefniadau is-gontractio y mae'r Contractwr wedi'u gwneud ar ddechrau'r Contract a threfniadau is-gontractio ychwanegol y mae'r Contractwr yn rhagweld y gallai fod eu hangen yn ystod y Contract a bydd yn darparu manylion am sut y bydd y darpariaethau ym mharagraffau (a) i (c) yn cael eu cymhwyso mewn perthynas â phob un o'r rhain.

- 1.2 Os yw'r Contractwr yn gwahodd cynigion ar gyfer is-gontract sy'n ofynnol o dan y Contract hwn, bydd y ffynonellau hysbysebu yn cynnwys y gwasanaeth GwerthwchiGymru a ddarperir gan Lywodraeth Cymru neu unrhyw wasanaeth sy'n disodli GwerthwchiGymru.
- 1.3 Am gyfnod y Contract, rhaid i'r Contractwr gadw cofnod o unrhyw is-gontractau y mae'n eu dyfarnu i fodloni gofynion y Contract a bydd yn darparu copi o'r cofnod hwnnw i'r Awdurdod Contractio heb fod yn hwyrach na phum Diwrnod Gwaith ar ôl i'r Awdurdod Contractio ofyn am gopi.
- 1.4 Bydd y Contractwr yn darparu adroddiad ysgrifenedig i'r Awdurdod Contractio unwaith y flwyddyn, neu ar gyfnodau eraill y mae'r Awdurdod Contractio yn eu pennu yn ystod cyfnod y contract, ar:
- (a) Gynnydd y Contractwr wrth gyflawni'r Cynllun Is-gontractio.
- Darperir yr adroddiad ar bob pen-blwydd Dyddiad Cychwyn y contract neu ar unrhyw ddyddiad arall y mae'r Awdurdod Contractio yn ei bennu a bydd mewn fformat y cytunwyd arno rhwng y Contractwr a'r Awdurdod Contractio.
- 1.5 At ddibenion y cymal [] hwn, ystyr "is-gontractio" yw unrhyw drefniant gan y Contractwr i drefnu i drydydd parti ("is-gontractwr") gyflawni unrhyw un o'i rwymedigaethau o dan y Contract.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymalau Enghreifftiol yr Amgylchedd

- 1.1 Bydd y Contractwr yn sicrhau y bydd unrhyw is-gontractwr neu asiant y Contractwr, wrth gyflawni'r Gwaith, yn ceisio defnyddio dulliau a deunyddiau sydd wedi'u cynllunio i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, defnyddio deunyddiau cynaliadwy, y gallu i ymdopi ag effaith newid hinsawdd, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth.
- 1.2 Bydd y Contractwr yn darparu cynllun amgylcheddol i'r Awdurdod Contractio ("y Cynllun Amgylcheddol") sy'n cofnodi'r camau y bydd y Contractwr yn eu cymryd yn ystod y Contract ac yn y Gwaith Gorffenedig i fynd i'r afael â'r materion canlynol:
- (a) Y gallu i ymdopi â newid hinsawdd.
 - (b) Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth.
 - (c) Lleihau allyriadau carbon oes gyfan.
 - (d) Lleihau ôl troed ecolegol byd-eang.
- 1.3 Bydd y cynllun yn esbonio sut y bydd y Contractwr yn nodi unrhyw risg y gallai gweithredu ar un ardal gael effaith negyddol ar ardal arall a chymryd camau i fynd i'r afael â risg o'r fath.
- 1.4 Bydd y Contractwr yn darparu i'r Awdurdod Contractio unrhyw ddata sy'n ymwneud â'r Contract neu'r Gwaith fel sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Contractio, o fewn [] diwrnod i gais, er mwyn galluogi'r Awdurdod Contractio i gydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol neu ganllawiau statudol.
- 1.5 Rhaid i'r Contractwr sicrhau y bydd unrhyw is-gontractwr neu asiant i'r Contractwr, wrth gyflawni'r Gwaith, yn rhoi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd neu a bennir gan Weinidogion Cymru neu gan yr Awdurdod Contractio.
- 1.6 Mae'r Contractwr a'r Awdurdod Contractio wedi cytuno ar y targedau a nodir yn Atodlen [] ar gyfer:
- (a) Cynyddu'r defnydd o ddeunydd wedi'i aildefnyddio a'i ailgylchu sydd ei angen ar gyfer cyflawni'r contract.
 - (b) Lleihau gwastraff a chyfanswm y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi wrth gyflawni'r contract.
 - (c) Lleihau allyriadau carbon oes gyfan wrth gyflawni'r contract.
- 1.7 Bydd y Contractwr yn darparu adroddiad ysgrifenedig i'r Awdurdod Contractio unwaith y flwyddyn neu ar gyfnodau eraill y mae'r Awdurdod Contractio yn eu pennu yn ystod cyfnod y contract ac ar ôl cwblhau'r prosiect ar:
- (a) Gynnydd y Contractwr wrth gyflawni'r Cynllun Amgylcheddol.
 - (b) Sut mae'r Contractwr yn cyflawni'r targedau a nodir yn Atodlen [].
- Darperir yr adroddiad ar bob pen-blwydd Dyddiad Cychwyn y contract neu ar unrhyw ddyddiad arall y mae'r Awdurdod Contractio yn ei bennu a bydd mewn fformat y cytunwyd arno rhwng y Contractwr a'r Awdurdod Contractio.

Clauses for NEC 4 Contracts

Design Build and Operate Contract, Alliance Contract, Engineering and Construction Contract, Facilities Management Contract, Professional Service Contract, Supply Contract, Term Service Contract, Engineering and Construction Subcontract, Facilities Management Subcontract, Professional Service Subcontract, Term Service Subcontract

Option X29 to be amended as follows:

- (i) X29.1(1) to be amended to “The Environmental Requirements are the requirements relating to Resilience to climate change, Enhancing the natural environment and biodiversity, and Minimising whole life carbon emissions stated in the Scope.
- (ii) X29.1(2) All references to “Climate Change Plan” to be amended to “Environmental Plan”.
- (iii) X29.1(3) to be amended to: “The Environmental Partners are the people or organisations who contribute to the achievement of the Environmental Requirements and are identified in the Environmental Requirements.”
- (iv) X29.2 All references to “Climate Change Partners” to be amended to “Environmental Partners”. All references to “Climate Change Requirements” to be amended to “Climate Change Requirements”.
- (v) X29.3: “Climate Change Requirements” to be amended to “Environmental Requirements”.
- (vi) X29.4 to be replaced by:

The Contractor shall provide to the Contracting Authority an environmental plan (“the Environmental Plan”) recording the actions that the Contractor shall take during the course of the Contract to address the following issues:

Resilience to climate change.

Enhancing the natural environment and biodiversity.

Minimising whole life carbon emissions.

Reducing global ecological footprint.

The plan shall identify how these issues shall be addressed during the course of the Contract and in the completed Works delivered for the Contracting Authority.

The plan shall explain how the Contractor shall identify any risk that action on one area could have a negative effect on another area and take action to address such risk.

The Contractor shall provide the Contracting Authority with any data relating to the Contract or the Works as the Contracting Authority requires to enable the Contracting Authority to comply with any legal obligations or statutory guidance.

The Contractor shall and shall procure that any subcontractor or agent of the Contractor shall in delivering the Works have regard to any guidance issued or specified by the Welsh Ministers or by the Contracting Authority.

The Contractor and the Contracting Authority have agreed the targets set out at Schedule [] for:

- (i) Increasing the use of re-used and re-cycled material required for delivering the contract.
- (ii) Reducing the amount of waste and the delivery of waste to landfill in delivering the contract.
- (iii) Reducing whole life carbon emissions in the delivery of the contract.

The Contractor shall provide the Contracting Authority with a written report once a year or at such other intervals as the Contracting Authority specifies during the duration of the contract on:

- (i) The Contractor's progress in delivering the Environmental Plan.
- (ii) The Contractor's achievements of the targets set out at Schedule [].

The report shall be provided on each anniversary of the Commencement Date of the contract or on such other date as the Contracting Authority specifies and shall be in a format agreed between the Contractor and the Contracting Authority.

- (vii) X29.5 "climate change" to be amended to "the environment". "Climate Change Requirements" to be amended to "Environmental Requirements".



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymalau Enghreifftiol Tryloywder

Cymalau Monitro (i'w defnyddio gyda NEC neu JCT neu contractau pwrpasol)

Mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol i'r cymal hwn:

“Cyfraith Berthnasol”	unrhyw statud, deddf, rheol statudol, gorchymyn neu gyfraith, cyfarwyddyd, rheoliad neu is-ddeddf arall neu unrhyw reol, cod, cyfarwyddyd neu offeryn arall sydd â grym y gyfraith.
“Cyfraith Diogelu Data”	yr holl gyfraith berthnasol sy'n ymwneud â deddfwriaeth diogelu data a phreifatrwydd sydd mewn grym o bryd i'w gilydd yn y DU, gan gynnwys GDPR y DU; Deddf Diogelu Data 2018 (a'r rheoliadau a wnaed oddi tani) a Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig 2003 (OS 2003/2426) fel y'u diwygiwyd a'r holl ddeddfwriaeth a gofynion rheoleiddiol eraill sydd mewn grym o bryd i'w gilydd sy'n berthnasol i barti sy'n ymwneud â defnyddio Data Personol (gan gynnwys, heb gyfyngiad, preifatrwydd cyfathrebiadau electronig); a'r canllawiau a'r codau ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu awdurdod diogelu data neu oruchwylio perthnasol arall ac sy'n berthnasol i barti.
“Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth”	Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ynghyd ag unrhyw ganllawiau a/neu godau ymarfer sy'n ymwneud â hi, a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth
“Deddfau'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern”	yr holl ddeddfau, statudau, rheoliadau a chodau gwrth-gaethwasiaeth a masnachu pobl perthnasol sydd mewn grym o bryd i'w gilydd, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015
“Y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus”	Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, unrhyw reoliadau a wnaed oddi tani ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd sy'n ymwneud â hi.

(a) Mae'r Contractwr yn cydnabod bod y [Cleient]/[Cyflogwr] yn ddarostyngedig i Gyfraith Diogelu Data a Deddfau'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern a gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus a bydd y Contractwr yn cynorthwyo ac yn cydweithredu â'r [Cleient]/[Cyflogwr] (ar draul y Contractwr) i alluogi'r [Cleient]/[Cyflogwr] i gydymffurfio â'i rwymedigaethau, ei ofynion datgelu ac archwilio (fel y bo'n briodol) o dan ac yn unol â'r deddfau hynny ac mewn perthynas â'r holl gyfraith berthnasol.

(b) Rhaid i'r Contractwr:

- (i) gadw set gyflawn o gofnodion i olrhain cadwyn gyflenwi'r holl waith a ddarperir i'r [Cleient]/[Cyflogwr] a'r holl daliadau a wneir i'r holl gyflenwyr ac isgontractwyr (o unrhyw haen) mewn cysylltiad â'r contract hwn a sicrhau bod copïau o'r cofnodion hynny ar gael i'r [Cleient]/[Cyflogwr] yn brydlon ar gais;

- (ii) cadw cofnodion cyflawn, cywir a chyfredol o'r gwaith prosesu a wneir ar ran y [Cleient]/[Cyflogwr] o dan y Contract hwn a'r camau a gymerwyd gan y Contractwr i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â darpariaethau'r Contract hwn
- (iii) caniatáu i'r [Cleient]/[Cyflogwr] a'i gynrychiolwyr, gyda rhybudd rhesymol yn ystod oriau busnes arferol ond heb rybudd os credir yn rhesymol fod y cymal [] hwn wedi'i dorri:
 - (a) gael mynediad at gyfleusterau ac offer y Contractwr a chymryd copïau o gofnodion y Contractwr ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall (ar unrhyw ffurf) ac i gwrdd â phersonél y Contractwr i archwilio cydymffurfiaeth y Contractwr â'i rwymedigaethau yn y cymal hwn; ac
 - (b) archwilio gweithrediadau, cyfleusterau ac amodau gwaith y Contractwr a'i weithdrefnau a systemau ansawdd, amgylcheddol, moesegol ac iechyd a diogelwch er mwyn sicrhau bod gan y Contractwr y cyfleusterau, y gweithdrefnau, y systemau a'r personél sydd eu hangen ar y Contractwr i gyflawni'r Gwaith yn unol â'r Contract hwn ac, at y diben hwnnw, bydd ganddo'r hawl i gael mynediad i fangre'r Contractwr ac i unrhyw fangre isgontractwyr neu asiantau'r Contractwr lle mae'r Gwaith yn cael ei gyflawni.
- (iv) cytuno â'r [Cleient]/[Cyflogwr] ar natur, maint ac amseriad unrhyw gamau unioni sy'n ofynnol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion neu fethiannau a nodwyd gan archwiliad a gynhaliwyd yn unol â chymal [](iii) a bydd yn ymgymryd â chamau unioni o'r fath ar ei gost ei hun.